



# Cardiau adnoddau:

Anifail *pw ydw i?*

✂ Printiwch cyn lamineiddio  
a'u torri'n gardiau unigol.



## Cadno

Rydw i'n mesur tua 100-120cm o hyd.

Os caf i lonydd, bydda i'n byw yn yr un lle am oes.

Rydw i'n bwyta adar bach, anifeiliaid, chwilod, mwydod a sbarion bwyd.

Rwy'n greadur swil ac yn ofnus o bobl.

Rydw i'n rhoi genedigaeth i 4 neu 5 cenau bach yn y gwanwyn.

Mae gen i gôt frowngoch.



## Mochyn daear

Rydw i'n mesur 80-95cm.

Rydw i'n bwyta mwydod, gwllithod, pob math o infertebratau, anifeiliaid bach, ffrwythau a sbarion.

Rydw i'n rhoi genedigaeth i hyd at 5 o rai bach ym mis Chwefror.

Rydw i'n byw mewn coetir, ffermdir â chloddiau a gerddi maestrefol mawr.

Rwy'n dawel fel arfer, ond yn chwyrru weithiau.



## Twrch daear

Rydw i'n 11-16cm o hyd.

Rydw i'n rhoi genedigaeth i 3-4 o rai bach ym mis Mehefin.

Mwydod neu bryfed genwair yw fy mhrif fwyd, ond rwy'n bwyta infertebratau eraill y pridd hefyd.

Rydw i'n byw mewn coetiroedd, tir pori a chynefinoedd llawn mwydod.

Rydw i'n creu twneli hir danddaear trwy ddefnyddio fy mhawennau blaen i dyrchu, a'm trwyn cryf i wthio fy ffordd ymlaen.





# Cardiau adnoddau:

Anifail *pw yd w i?*

✂ Printiwch cyn lamineiddio  
a'u torri'n gardiau unigol.



## Cwningen

Rydw i rhwng 35 a 40cm o hyd.

Gallaf roi genedigaeth i 6 torllwyth o rhwng 3 a 6 o gwningod bach, rhwng mis Chwefror a mis Hydref.

Rydw i'n bwyta glaswellt, bylbiau, rhisglau a phlanhigion.

Rwy'n gallu bwyta fy maw fy hun hefyd!

Rydw i'n byw mewn glaswelltir, perthi, coetir a thwyni tywod.

Rwy'n dawel iawn, ond yn gallu gwichian a tharo fy nhraed pan fyddaf dan fygythiad.



## Gwiwer

Rydw i tua 25 i 30cm o hyd.

Rwy'n gallu rhoi genedigaeth i 1 neu 2 torllwyth o 3 i 5 o wiwerod bach, rhwng y gwanwyn a diwedd yr haf.

Rydw i'n hoffi bwyta cnau, hadau, aeron a rhisgl.

Byddaf yn bwyta wyau adar a chywion bach weithiau.

Rydw i'n byw mewn nyth gwiwer.

Os byddaf wedi cynhyrfu, rydw i'n taro fy nhraed, yn fflicio fy nghynffon ac yn gwneud sŵn trydar neu glecar.



## Draenog

Rydw i rhwng 16 a 26 cm o hyd.

Rydw i'n bwyta infertebratau, sbarion a deunydd planhigion.

Rydw i'n byw mewn gerddi, perthi, coetiroedd a thwyni tywod.

Er fy mod i'n dawel iawn, byddaf yn gwichian os bydd rhywun yn ymosod arna i.

Rydw i'n amddiffyn fy hun trwy gyrlio'n belen.

Mochyn daear yw fy mhrif ysglyfaethwr.



# Cardiau adnoddau:

Anifail *pwyl ydw i?*

✂ Printiwch cyn lamineiddio  
a'u torri'n gardiau unigol.



## Llygoden

Rydw i tua 10 i 15 cm o hyd.

Rydw i'n hoffi bwyta aeron a chnau.

Rydw i'n byw mewn twnnel bach yn y ddaear,  
wedi'i orchuddio â dail.

Rydw i'n rhoi genedigaeth i fwy na 5 torllwyth  
o lygod bach bob blwyddyn.

Fi yw hoff fwyd y dylluan wen.



## Broga

Rydw i tua 5 i 10cm o hyd.

Rydw i'n dodwy cannoedd o wyau ar y tro.

Rydw i'n defnyddio fy nhafod hir i ddal pryfed.

Mae gen i goesau ôl cryf sy'n fy helpu i neidio,  
a thraed gweog sy'n fy helpu i nofio.

Rydw i'n crawcian fel arfer, ond byddaf yn gwneud  
sŵn gwichian uchel os bydd rhywun yn fy mygwth.



## Aderyn du

Rydw i'n ofnus iawn o bobl.

Rydw i tua 11cm o daldra.

Rydw i'n cael cywion bach yn y gwanwyn.

Rydw i'n hoff o fwyta pryfed genwair neu fwydod.

Gallaf fod yn ddu neu frown.

Fe welwch chi fi mewn gerddi, coetiroedd a  
chloddiau.



# Cardiau adnoddau:

Anifail *pw ydwy i?*

✂ Printiwch cyn lamineiddio  
a'u torri'n gardiau unigol.



## Carw

Rydwy i dros 120cm o daldra.

Rydwy i'n rhoi genedigaeth i elain neu garw bach ddiwedd y gwanwyn.

Rydwy i'n bwyta glaswellt, prysglwyni a choed.

Rydwy i'n byw ar weunydd, coetiroedd agored a ffermdir.



Rydwy i'n gwneud sŵn breffu.

Mae'r gwryw'n gwneud sŵn rhuo dwfn.

## **GWEITHGAREDD ESTYNEDIG:** Beth am wneud eich cardiau eich hun?

Rhannwch gardiau dros ben i'r grŵp darlunio arny'n nhw. Yna, ewch ati i gasglu gwybodaeth am yr anifail sydd ar y cerdyn.

- Pa anifeiliaid eraill hoffech chi eu hychwanegu at y set hon?
- Pa wybodaeth allwch chi gasglu amdanyn nhw?



## Angen mwy o adnoddau dysgu, data a gwybodaeth?

E-bostiwch: [addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
neu ewch i [www.cyfoethnaturiolcymru/dysgu](http://www.cyfoethnaturiolcymru/dysgu)

Fersiwn/iaith arall neu brint bras:  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) // 0300 065 3000